


# Mae Diogelwch yn Bwysig

Wrth weithio ger ceblau o dan y ddaear

# Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn ceisio helpu unrhyw un sy'n cloddio neu'n torri drwy'r ddaear i fod yn ddiogel.



**Mae dros 1,000 o anafiadau o ganlyniad i gyswllt â chebl trydan o dan y ddaear wedi'u cofnodi yn y DU yn y 10 mlynedd diwethaf.**

Mae llawer o'r digwyddiadau hyn wedi bod ar safleoedd adeiladu neu ddymchwel, a'r gweddill ar briffyrdd cyhoeddus a llwybrau troed, neu mewn eiddo domestig a gerddi. Gall difrod ddigwydd o ganlyniad i gloddio neu dorri drwy'r ddaear a gall achosi ffrwydrad, gan arwain at losgiadau difrifol a hyd yn oed farwolaeth.

## Nodiadau Pwysig:

- **Cysylltwch â ni** i gael cynlluniau ceblau am ddim cyn cychwyn ar y gwaith.
- **Caiff trydan ei gyflenwi** i dai, siopau, swyddfeydd, ffatrïoedd, goleuadau stryd a dodrefn stryd eraill gan geblau trydan o dan y ddaear neu linellau pŵer uwchben.
- **Nid yw ceblau o dan** y ddaear yn mynd mewn llinellau syth; maen nhw'n hyblyg ac yn newid cyfeiriad a dyfnder.
- **Dylid trin ceblau cyflenwi** sy'n gysylltiedig ag adeiladau gwag fel pe baent yn FYW nes bydd SP Energy Networks yn cadarnhau nad ydynt yn fyw.
- **Ni ddangosir pob** cebl ar gynlluniau.
- **Os bydd cebl** wedi'i gladdu mewn concrit peidiwch â cheisio ei dorri'n rhydd. Cysylltwch ag SP Energy Networks i sicrhau bod y cebl wedi'i ddadwefru.
- **Dylech fod yn ofalus** iawn wrth ddefnyddio caib, fforch, trosol, pinnau neu unrhyw gyfarpar pigfain eraill i ryddhau lympiau o gerrig neu i dorri tir cywasgedig.
- **Peidiwch byth â thaflu** caib neu gyfarpar miniog i'r ddaear.

## Cynlluniwch Ymlaen Llaw, Edrychwch o'ch Cwmpas

Cynhaliwch asesiad risg yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd HS (G) 47 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, 'Avoiding Danger from Underground Services'.

Sicrhewch bod gennych gynlluniau cyfredol o'r gwasanaethau tanddaearol yn yr ardal (gallwn roi cynlluniau i chi os nad oes gennych rai).

Dylech gynnwys ein rhif ffôn mewn argyfwng ar eich map o'r fferm/cynlluniau o'r safle ac yn eich rhestr o gysylltiadau ffôn. Gofynnwch i'ch gweithwyr gadw'r rhif yn eu ffonau symudol.

Dylech archwilio'r ardal lle rydych yn bwriadu cloddio bob amser gan ddefnyddio Cyfarpar Osgoi Ceblau a Genny.

Os oes gwaith brys yn cael ei wneud ac nad yw'r cynlluniau ar gael ar unwaith, cloddiwch fel pe bai ceblau BYW wedi'u claddu yn y cyffiniau.

Dylech fod yn ymwybodol y gallai gweithredoedd trydydd parti fod wedi newid dyfnder neu safle ceblau ers iddynt gael eu gosod.

Efallai na fydd ceblau cysylltiadau gwasanaeth yn cael eu dangos ar y cynlluniau, felly edrychwch am arwyddion o wasanaethau posibl, er enghraifft dodrefn stryd.

Marciwch safleoedd ceblau gan ddefnyddiopaent ffordd sy'n gwrthsefyll dŵr neu farciwr parhaol arall



## Cloddiwch Dyllau Prawf yn Ofalus

- Gwnewch yn siŵr bod gennych gofnod o'r ceblau cyfredol sydd ar y safle. Rydym yn eu darparu am ddim.
- Defnyddiwch Gyfarpar Osgoi Ceblau (CAT) a rhaw neu bâl.
- Peidiwch byth â defnyddio caib, fforch, trosol na chyfarpar pŵer.
- Gwnewch yn siŵr bod aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant llawn i gloddio a defnyddio offer yn briodol ac yn ddiogel.
- Gwnewch dyllau prawf â llaw ar hyd llwybr dangosol y cebl i gadarnhau safle'r gwasanaethau.
- Gwnewch gymaint o dyllau ag sydd eu hangen â llaw, yn enwedig os oes pibellau plastig na all Cyfarpar Osgoi Ceblau eu canfod bob amser.
- Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, cadwch olwg am dâp marcio, cwndidau neu orchuddion ceblau sy'n dangos lleoliad gwasanaethau tanddaearol.
- Peidiwch â defnyddio ceblau agored fel stepiau neu afaelion llaw hwylus.
- Peidiwch â defnyddio tarw dur, crafwr, tyrchwr na chloddiwr oni bai eich bod yn fodlon bod yr holl wasanaethau a gladdwyd wedi cael eu nodi yn yr ardal waith.
- Rhowch ddeunydd ôl-lenwi mân o amgylch y gwasanaethau. Gorchuddiwch y cebl â phriddheb gerrig ynddo neu â llwch cerrig acailosodwch unrhyw deils, cwndidau a thâp sy'n nodi lleoliad ceblau.

## Os byddwch yn Difrodi Cebl  o dan y Ddaear

**Os yw eich peiriant yn dal mewn cysylltiad â chebl tanddaearol byw:**

- Arhoswch y tu mewn i'r cab nes bod SP Energy Networks neu'r Gwasanaethau Brys yn cyrraedd, oni bai bod perygl gwirioneddol o dân.
- PEIDIWCH â dringo allan na chyffwrdd â'r ddaear tra byddwch yn dal mewn cysylltiad â'r peiriant.
- Cadwch eraill draw hyd yn oed os ydych chi yn y cab; gallai rhywun arall sy'n cyffwrdd â'ch cerbyd gael anafiadau angheuol.
- Os yn bosibl, defnyddiwch eich ffôn symudol i gysylltu â SP Energy Networks drwy 150, neu gofynnwch i rywun arall eu ffonio. Os oes angen, ffoniwch y Gwasanaethau Brys hefyd. Sicrhewch eich bod yn rhoi lleoliad cywir i'r ddau.
- 105 yw'r rhif ledled y DU i'w ffonio i adrodd am doriadau pŵer neu argyfyngau rhwydwaith trydan.
- Os oes rhaid i chi fynd allan, peidiwch â chamu allan o'r cerbyd. NEIDIWCH YN GLIR a chymerwch gamau neidio fel bod un droed oddi ar y ddaear bob amser neu neidio fel cwningen nes eich bod o leiaf 5 metr i ffwrdd.

**Os nad yw eich peiriant mewn cysylltiad â'r cebl byw:**

- Gallwch adael y peiriant os yw'n ddiogel i wneud hynny ond rhaid i chi gadw pellter diogel a sicrhau'r ardal.
- Adroddwch y difrod bob amser drwy 105 i SP Energy Networks.

## Rhagor o Wybodaeth

- Mae cyngor cynhwysfawr i'w gael gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch drwy **www.hse.gov.uk/construction/safetytopics/underground.htm**

**Cyn cychwyn unrhyw waith, rydym hefyd yn argymell yn gryf eich bod yn darllen:**

- Nodyn Cyfarwyddyd HS (G) 47 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), 'Avoiding Danger from Underground Services'. Gallwch ei lwytho i lawr am ddim o wefan HSE.
- Taflenni'r Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni sydd ar gael am ddim: **www.energynetworks.org/campaigns/**

**POWER CUT? CALL 105**



### Arwydd clir

Edrychwch i fyny a chadwch lygad am linellau pŵer. Os byddwch yn gweld yr arwydd hwn ar unrhyw gyfarpar cadwch draw. Mae'r neges yn glir.

DANGER OF DEATH

## Cysylltu â ni

Rydym yn rhoi cyngor di-dâl am ddiogel-wch i'ch helpu i fod yn ddiogel ger llinellau pŵer.

Ar gyfer cyngor di-dâl am ddiogelwch ac ymholiadau cyffredinol am y rhwydwaith:

**www.spenergynetworks.co.uk**
**customercare@spenergynetworks.com**
**0330 10 10 444**

Ar gyfer cynlluniau rhwydwaith trydan:

**Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig**
0141 614 5666
requestforplansmanweb@spenergynetworks.co.uk

**Canolbarth Lloegr a De'r Alban**
0141 614 9903
requestforplansscotland@spenergynetworks.co.uk

**Ffoniwch 105 neu Mewn argyfwng yn unig:**

**Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig**
0800 001 5400

**Canolbarth Lloegr a De'r Alban**
0800 092 9290

SP Energy Networks